PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



# DATA CYDRADDOLDEB MYFYRWYR

## Cyfnod Adrodd Data:
## 1 Awst 2018 - 31 Gorffennaf 2019

Cyhoeddwyd Mawrth 2020

# CYNNWYS

1. Rhagarweiniad

2. Trosolwg Demograffig o Fyfyrwyr y Brifysgol

3. Rhywedd

4. Anabledd

5. Ethnigrwydd

6. Crynodeb

# RHAGARWEINIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o statws Rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor a gofrestrwyd ar gyfer y flwyddyn 2018/2019. Bwriad yr adroddiad yw cynorthwyo'r rhai sy'n gweithio i gynnal cymuned gynhwysol y brifysgol i gael gwell dealltwriaeth o'r prif heriau cydraddoldeb sy'n wynebu'r myfyrwyr a chyfeirio ymdrechion i'w goresgyn at y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn cymharu ffigurau Prifysgol Bangor â'r ystadegau cenedlaethol diweddaraf sydd ar gael (2017/18), er mwyn ystyried amrywiaeth a chynhwysiant myfyrwyr y Brifysgol gan roi ystyriaeth i dueddiadau newydd a rhai sy'n datblygu. Mae ffigurau cyflawn Prifysgol Bangor am y cyfnod adrodd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn.

*(Yn dilyn ailstrwythuro'r colegau yn 2018, mae Prifysgol Bangor yn awr yn cynnwys 14 ysgol ar draws tri choleg. Mae ffigurau'r myfyrwyr ar gyfer 2018/19 yn cynnwys 10 myfyriwr sy'n dal i gwblhau cyrsiau a fyddai wedi bod mewn ysgolion nad ydynt bellach yn bodoli. At ddibenion yr adroddiadau hyn, nid yw'r myfyrwyr hyn wedi eu cynnwys yn y Data Myfyrwyr).*


**Paratowyd gan Helen Munro, Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth  Myfyrwyr, Gwasanaethau Myfyrwyr**

*Daw'r holl ddata am Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig a ddefnyddiwyd at ddibenion cymharu o adroddiad yr Uned Herio Cydraddoldeb, 'Cydraddoldeb mewn Addysg Uwch': Adroddiad Ystadegol Myfyrwyr' 2019 (ffigurau ar gyfer 2017/18).*
***Gweler hefyd:** Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Prifysgol Bangor 2018 - 2019, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr - Strategaeth Atal a Chefnogi 2018 - 2021*


# TROSOLWG DEMOGRAFFIG O'R MYFYRWYR

Yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19, cofrestrodd 10194 o fyfyrwyr i astudio ym Mhrifysgol Bangor.


## MYFYRWYR BANGOR YN ÔL RHYWEDDEDD





## MYFYRWYR CYMRU YN ÔL RHYWEDDEDD





## MYFYRWYR Y DU YN ÔL RHYWEDDEDD





## MYFYRWYR BANGOR YN ÔL LEFEL ASTUDIAETH





## MYFYRWYR Y DU YN ÔL LEFEL ASTUDIAETH




## MYFYRWYR Y DU YN ÔL ANABLEDD





## MYFYRWYR BANGOR YN ÔL ANABLEDD




## MYFYRWYR SY'N PRESWYLIO YN Y DU YN ÔL ETHNIGRWYDD




## MYFYRWYR BANGOR YN ÔL ETHNIGRWYDD




DALIE – Pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd Ethnig



# RHYWEDD

Dychwelir data ynghylch Rhywedd myfyrwyr i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a'r dewisiadau posibl yw 'Gwryw', 'Benyw' ac 'Arall'. Oherwydd y nifer fechan, ac yn unol â pholisi HESA, mae'r myfyrwyr a nododd eu Rhywedd fel 'Arall' wedi eu heithrio o ddadansoddiadau Rhywedd yn yr adroddiad hwn.

Merched yw mwyafrif y myfyrwyr sy'n astudio ym Mangor o hyd gyda 59.8% o'r holl fyfyrwyr yn nodi eu bod yn fenyw a 40.2% yn nodi eu bod yn wryw. Mae hynny ychydig yn uwch na ffigur y Deyrnas Unedig sef 57.0% a ffigur Cymru sef 55.4%.

Mae amrywiannau Rhywedd ar lefel pwnc/ysgol, sy'n cyfateb â ffigurau cenedlaethol. Fesul ysgol ym Mhrifysgol Bangor, mae dynion yn cael eu gorgynrychioli (o gymharu â ffigurau cyffredinol Bangor) yn yr Ysgol Busnes, yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, yr Ysgol Gwyddorau Eigion, yr Ysgol Gwyddorau Naturiol, yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer Corff a'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig. Mae'r ysgol olaf yn cynnwys 85.7% o fyfyrwyr gwrywaidd.

Mae myfyrwyr benywaidd yn parhau i fod y mwyafrif yn yr Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth, Ysgol y Gymraeg, yr Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol, yr Ysgol Seicoleg a'r Ysgol Gwyddorau Iechyd. Mae'r ysgol olaf yn cynnwys 88.5% o fyfyrwyr benywaidd.

Mae gwahaniaethau Rhywedd nodedig hefyd o ran canlyniadau, gyda myfyrwyr benywaidd yn cyfrif am 58.8% o'r rhai a gafodd Radd Dosbarth Cyntaf ac yn 56.4% o'r rhai a gafodd 2:1, ond roedd cyfraddau uwch o ddynion na merched mewn gwaith proffesiynol llawn amser chwe mis ar ôl cymhwyso (Advance HE, Cydraddoldeb ac Addysg Uwch, Adroddiad Ystadegol Myfyrwyr 2018).

## Holl fyfyrwyr yn ôl Rhywedd a lefel astudio

Mae cyfran y myfyrwyr benywaidd ar draws bob lefel astudio yn parhau'n debyg i ganran gyffredinol Bangor o 59.8%. Dim ond ar y lefel Ôl-radd Ymchwil y gwelir canran is o fyfyrwyr benywaidd, ac mae hyn yn cymharu'n unol â ffigurau'r DU.

| **Lefel Astudio** | **Rhywedd** | **Bangor** | **DU** |
|---|---|---|---|
| Holl Fyryfyrwyr | Benyw | 59.8% | 57.0% |
| | Gwryw | 40.8% | 43.0% |
| Israddedigion | Benyw | 60.1% | 55.9% |
| | Gwryw | 39.9% | 44.1% |
| Ôl-raddedigion | Benyw | 60.6% | 60.7% |
| | Gwryw | 39.4% | 39.3% |
| Ôl-raddedigion Ymchwil | Benyw | 55.1% | 48.6% |
| | Gwryw | 44.9% | 51.4% |

## Holl fyfyrwyr yn ôl Rhywedd a dull astudio

Mae canran uwch o ferched yn astudio'n rhan amser ar bob lefel astudio. Ar hyn o bryd  merched yw 63.7% o'r holl fyfyrwyr rhan-amser sy'n codi i 68.3% ar lefel ôl-radd rhan-amser.

## Holl fyfyrwyr yn ôl maes pwnc a Rhywedd

O'r 14 ysgol ym Mangor, dim ond 3 sy'n gallu dangos cydbwysedd Rhywedd sydd o fewn 5% i ffigurau cyffredinol y brifysgol, sef 59.8% yn fenywod a 40.2% yn wrywod. Mae hyn yn cynnwys yr Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, yr Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Ysgol y Gyfraith. Fodd bynnag, mae anghydbwysedd Rhywedd yng ngweddill yr ysgolion, ac mae hynny'n unol â'r ffigurau cenedlaethol ar lefel pwnc.

### Cydbwysedd Rhywedd o blaid myfyrwyr benywaidd

| **Ysgol** | **% Benyw ym Mangor** | **DU** |
|---|---|---|
| Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth | 68.2% | 71.0% |
| Addysg a Datblygiad Dynol | 72.2% | 77.4% |
| Cymraeg | 73.8% | |
| Gwyddorau Iechyd | 88.5% | 79.1% |
| Seicoleg | 73.5% | |
| Y Gyfraith | 60.9% | 63.5 |

### Cydbwysedd Rhywedd o blaid myfyrwyr gwrywaidd

| **Ysgol** | **% Gwryw ym Mangor** | **DU** |
|---|---|---|
| Busnes | 53.7% | 50.4 |
| Cerddoriaeth | 49.1% | |
| Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | 85.7% | 82.1 |
| Gwyddorau'r Eigion | 48.4% | |
| Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer | 68.3% | |
| Gwyddorau Naturiol | 51.0% | |

Pynciau nad ydynt yn rhaid SET Pynciau SET

Mae ysgolion sy'n dysgu pynciau SET (Gwyddoniaeth, Peirianneg a Thechnoleg) ym Mangor yn tueddu i weld anghydbwysedd Rhywedd o blaid dynion gyda'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig sydd â'r ganran uchaf o fyfyrwyr gwrywaidd sef 85.7%. Mae ysgolion sy'n dysgu pynciau heblaw SET fel Ysgol y Gyfraith a'r Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol yn denu mwy o fyfyrwyr benywaidd ac mae hyn yn cyd-fynd â thueddiadau'r DU.  Lle bo ffigurau cenedlaethol ar gael, dangosir canran y Deyrnas Unedig yn y golofn ar y dde.

Yr ysgol sydd â'r anghydbwysedd Rhywedd uchaf o blaid myfyrwyr benywaidd yw'r Gwyddorau Iechyd, sef 88.5% yn ferched. Mae'r ysgol hon yn cynnig cyrsiau mewn Nyrsio a Bydwreigiaeth, a gwelir bod y swyddi hyn yn dal i gael eu cysylltu'n draddodiadol â merched. Dim ond 10% o holl nyrsys cofrestredig y Deyrnas Unedig yn 2017 oedd yn wrywod (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2017) ac mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol o'r farn bod nyrsio yn un o'r swyddi sydd wedi eu rhannu fwyaf ar sail Rhywedd yn y Deyrnas Unedig (Coleg Nyrsio Brenhinol, 2018).

Maes arall lle mae'r anghydbwysedd Rhywedd yn amlwg iawn yw'r Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol, gyda 72%, bron i 3 o bob 4 myfyriwr, yn nodi eu bod yn fenywod. Mae hynny ychydig yn is na ffigur y Deyrnas Unedig ar gyfer myfyrwyr Addysg sef 77.5% ond mae'n unol â'r tueddiadau cenedlaethol yn y sector addysg. Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn dweud bod gan Gymru dair gwaith cymaint o athrawon benywaidd ag o athrawon gwrywaidd.

Tra bydd cymdeithas yn parhau i ystyried addysgu a nyrsio fel swyddi i ferched, disgwylir i'r duedd hon barhau.



# ANABLEDD

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r term 'myfyrwyr anabl' i gyfeirio at fyfyrwyr y nodir eu bod yn anabl ar eu cofnod yn y brifysgol. Caiff anabledd ei ddatgan ar sail hunanasesiad y myfyriwr ei hun. Defnyddir y term 'myfyriwr nad yw'n anabl' i gyfeirio at rai nad ydynt yn anabl, neu nid yw'r sefydliad yn gwybod beth yw statws eu hanabledd.

Mae nifer y myfyrwyr sydd wedi datgan anabledd yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu'n raddol ymhlith myfyrwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan godi o 5.4% yn 2003/04 i 12.9% yn 2017/18. Mae cyfraddau'n parhau i fod yn uwch ymhlith myfyrwyr israddedig o gymharu ag ôl-raddedigion ac ymhlith myfyrwyr y DU o'u cymharu â myfyrwyr rhyngwladol. (Advance HE, Cydraddoldeb ac Addysg Uwch, Adroddiad Ystadegol Myfyrwyr 2019).

## Holl Fyfyrwyr yn ôl Anabledd

Roedd 19.9% o fyfyrwyr Prifysgol Bangor a gofrestrodd yn ystod y cyfnod 2018/19, wedi eu cofnodi gydag anabledd o gymharu â 17.6% yn 2017/2018. Mae hyn yn uwch na ffigur y Deyrnas Unedig sef 12.9% a ffigur Cymru sef 13.6%.

## Holl Fyfyrwyr yn ôl Dull Astudio ac Anabledd

Roedd cyfran gyffredinol myfyrwyr rhan-amser ym Mhrifysgol Bangor a ddatganodd anabledd yn is na chyfran y myfyrwyr amser llawn. Mae ffigurau cenedlaethol yn cyflwyno darlun gwahanol, gyda Phrifysgol Bangor yn gweld nifer uwch o fyfyrwyr llawn amser yn datgan eu bod yn anabl. Mae'r ffigurau hyn yn wahanol eto wrth edrych ar israddedigion yn unig.

| | **Bangor** | **DU (2017/18)** |
|---|---|---|
| Holl Fyfyrwyr Llawn Amser - Anabl | 20.5% | 12.9% |
| Holl Fyfyrwyr Rhan Amser - Anabl | 15.2% | 13.0% |

| | **Bangor** | **DU (2017/18)** |
|---|---|---|
| Holl Fyfyrwyr Israddedig Llawn Amser - Anabl | 21.4% | 13.5% |
| Holl Fyfyrwyr Israddedig Rhan Amser - Anabl | 35.6% | 14.3% |

Mae ffigurau uwch i'w gweld o hyd ym Mhrifysgol Bangor o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig, ond mae'r grŵp israddedig yn dangos canran uwch ymhlith myfyrwyr rhan-amser o gymharu â myfyrwyr llawn amser, fel y gwelir yn ffigurau'r Deyrnas Unedig sydd efallai'n awgrymu yn y DU yn gyffredinol, bod rhai myfyrwyr anabl yn dewis astudio'n rhan-amser yn hytrach nag astudio'n llawn amser. Gall fod goblygiadau ariannol hefyd i'r myfyrwyr a bod hynny'n dylanwadu ar y penderfyniad hwn.

## Holl Fyfyrwyr yn ôl Lefel Astudio ac Anabledd

Mae mwy o fyfyrwyr israddedig yn datgan eu bod yn anabl na myfyrwyr ôl-radd. Gwelir hyn hefyd yn ffigurau'r DU.

| | Bangor | DU (2017/18) |
|---|---|---|
| Holl Fyfyrwyr Israddedig Llawn Amser - Anabl | 21.4% | 13.5% |
| Holl Fyfyrwyr Ôl-radd Llawn Amser - Anabl | 16.7% | 8.6% |

## Holl fyfyrwyr yn ôl maes pwnc ac anabledd

O'r 14 ysgol ym Mangor, mae gan 3 ganran gyfartalog o fyfyrwyr sy'n nodi eu bod yn anabl, sydd dros 5 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd Prifysgol Bangor, sef 19.9%. Mae hyn yn cynnwys yr Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau ac Ysgol Gwyddorau'r Eigion. Mae gan dair ysgol ganran gyfartalog o fyfyrwyr sydd dros 5 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd, sef yr Ysgol Busnes, Ysgol y Gymraeg a'r Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer.

Mae niferoedd tebyg o fyfyrwyr SET a myfyrwyr nad ydynt yn SET wedi datgan anabledd, sy'n unol â ffigurau'r Deyrnas Unedig. Mae ffigurau'r Deyrnas Unedig hefyd yn dangos bod cyfraddau datgan anabledd ar eu huchaf ymhlith myfyrwyr sy'n astudio'r celfyddydau creadigol a dylunio (20.0%) ac astudiaethau hanesyddol ac athronyddol (18.6%). I'r gwrthwyneb, dim ond 7.3% o'r rhai sy'n astudio busnes ac astudiaethau gweinyddol ac 8.6% o'r rhai sy'n astudio peirianneg a thechnoleg yn y DU a ddatganodd anabledd sy'n cymharu'n unol â ffigurau Bangor.

## Holl Fyfyrwyr yn ôl Canlyniadau

O'r 2040 o fyfyrwyr a raddiodd gyda gradd israddedig yn 2018/19, roedd 381 (18.7%) wedi datgan anabledd.

| Dosbarthiadau Gradd | Myfyrwyr Anabl | Myfyrwyr Dim Anabledd |
|---|---|---|
| Dosbarth Cyntaf | 31.8% | 29.4% |
| 2:1 | 40.4% | 44.6% |
| 2:2 | 23.4% | 22.1% |
| Trydydd Dosbarth | 2.9% | 2.5% |

| | | |
|---|---|---|
| Diddosbarth | 1.5% | 1.4% |

Yn gyffredinol, graddiodd 73.9% o fyfyrwyr nad oeddent yn anabl yn 2018/2019 gyda gradd dosbarth gyntaf/2:1 o'i gymharu â 72.2% o fyfyrwyr anabl. Mae hyn yn dangos bwlch cyrhaeddiad o 0.8 pwynt canran. Mae hyn yn llai na ffigur y Deyrnas Unedig sef 1.9 pwynt canran.

Yn ôl Advance HE, mae mwy o fyfyrwyr anabl a gymhwysodd yn 2017/18 yn ddi-waith o'i gymharu â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl.



# ETHNIGRWYDD

Mae'r Brifysgol yn casglu ac yn cyflwyno data am ethnigrwydd pob myfyriwr adeg cofrestru. Mae'n cyflwyno data ar gyfer y categorïau ethnig, Gwyn, Asiaidd, Du a Chymysg/Arall a chategorïau lle gwrthodwyd rhoi gwybodaeth neu nad yw'n hysbys. I gymharu, dim ond data ar gyfer myfyrwyr sy'n preswylio yn y DU a gyflwynir gan HESA oherwydd ei bod yn orfodol casglu data am ethnigrwydd y myfyrwyr hynny sy'n preswylio yn y DU ac sy'n dewis datgan. Mae grwpiau nad ydynt yn wyn hefyd yn cael eu cynnwys mewn un grŵp Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME). Lle bo'n briodol, mae data ar gyfer myfyrwyr Bangor wedi'i rannu'n grwpiau sy'n cynnwys 'holl fyfyrwyr' a 'holl fyfyrwyr sy'n preswylio yn y DU', er mwyn cymharu data'n gywir â ffigurau HESA.

## Holl fyfyrwyr sy'n preswylio yn y DU yn ôl ethnigrwydd

Mae ffigurau'r Deyrnas Unedig yn dangos bod 98.4% o'r holl fyfyrwyr sy'n preswylio yn y DU wedi datgan gwybodaeth am ethnigrwydd. O'r rhai yr ydym yn gwybod beth yw eu hethnigrwydd, nododd 23.6% eu bod yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Roedd y ganran pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn amrywio'n sylweddol yn ôl gwlad, 26.9% yn Lloegr, 11.3% yng Nghymur a 3.3% yng Ngogledd Iwerddon. Mae gwahaniaethau sylweddol hefyd rhwng rhanbarthau ar draws y DU. Ym Mangor roedd 7.2% o'r holl fyfyrwyr sy'n preswylio yn y DU yn nodi eu hunain fel pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

## Holl fyfyrwyr yn ôl ethnigrwydd

Nododd 18.7% o holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor eu bod yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

## Holl fyfyrwyr sy'n preswylio yn y DU yn ôl dull astudio ac ethnigrwydd

Ym Mhrifysgol Bangor, mae cyfran y myfyrwyr sy'n preswylio yn y DU sy'n nodi eu bod yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar draws cyrsiau rhan amser yn is na'r gyfran ar gyrsiau llawn amser. Mae hyn yn debyg i ffigurau'r DU.

| | Bangor | DU |
|---|---|---|
| Myfyrwyr Llawn Amser sy'n preswylio yn y DU - Pobl Dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | 7.4% | 25.5% |
| Myfyrwyr Rhan Amser sy'n preswylio yn y DU - Pobl Dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | 5.6% | 17.5% |

## Holl fyfyrwyr yn ôl dull astudio ac ethnigrwydd

Mae cyfran yr holl fyfyrwyr sy'n nodi eu bod yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar draws cyrsiau rhan amser yn llawer is na chyfran y myfyrwyr llawn amser. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd nad yw myfyrwyr sy'n dod o'r tu allan i'r DU, yn dewis astudio yn rhan amser oherwydd goblygiadau ariannol astudio dros gyfnod hirach yn ogystal â gofynion fisa.

| | **Bangor** |
|---|---|
| Myfyrwyr Llawn Amser sy'n preswylio yn y DU - Pobl Dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | 20.1% |
| Myfyrwyr Rhan Amser sy'n preswylio yn y DU - Pobl Dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig | 7.4% |

## Holl Fyfyrwyr sy'n preswylio yn y DU yn ôl lefel astudio ac ethnigrwydd

Mae ffigurau'r Deyrnas Unedig yn dangos bod y canrannau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn gymharol uchel ymhlith israddedigion ac ôl-raddedigion hyfforddedig (24.7% a 22.6%). Fodd bynnag, roedd llawer yn is ymhlith myfyrwyr ôl-radd ymchwil (17.2%). Ym Mangor, mae cynrychiolaeth pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ymhlith israddedigion sy'n preswylio yn y DU yn 7.5% a 7.2% ymhlith myfyrwyr ôl-radd. Yn debyg i ffigurau'r DU, mae canran y myfyrwyr ymchwil ôl-radd sy'n nodi eu bod yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn is ar 5.9%.

## Holl Fyfyrwyr yn ôl Lefel Astudio ac Ethnigrwydd

I'r gwrthwyneb, wrth edrych ar ffigurau ar gyfer holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor, mae cynrychiolaeth pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ymhlith yr holl israddedigion yn 16% ac yn 31.6% ymhlith myfyrwyr ôl-radd, sy'n dangos bod niferoedd llawer uwch na'r cyfartaledd o fyfyrwyr yn nodi eu bod yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar lefel ôl-radd. Mae Prifysgol Bangor yn recriwtio llawer o fyfyrwyr o ardaloedd yn y Dwyrain Canol a De Ddwyrain Asia, a allai gyfrif am y gwahaniaeth hwn.

## Holl fyfyrwyr sy'n preswylio yn y DU yn ôl maes pwnc ac ethnigrwydd

O'r 14 ysgol ym Mangor, dim ond 2 ysgol sydd â chanran gyfartalog o fyfyrwyr sy'n preswylio yn y DU sy'n nodi eu bod yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, sydd yn uwch neu'n is na 5 pwynt canran o gyfartaledd Prifysgol Bangor, sef 7.2%. Y ddwy ysgol yw'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg lle mae myfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n preswylio yn y DU yn cyfrif am 12.6% o'r garfan myfyrwyr ac Ysgol Gwyddorau Meddygol lle mae myfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n preswylio yn y DU yn cyfrif am 17.9% o'r myfyrwyr.

## Holl fyfyrwyr yn ôl maes pwnc ac ethnigrwydd

Wrth edrych ar y ffigurau ar gyfer yr holl fyfyrwyr (gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol) mae tebygrwydd yn ôl pwnc gyda myfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn 27.8% o'r myfyrwyr yn yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg a 26.9% o'r myfyrwyr yn yr Ysgol Gwyddorau Meddygol. Dim ond un Ysgol arall, yr Ysgol Busnes sydd â chanran uwch na'r ganran gyfartalog (18.7%) o fyfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig gyda 66.8% o'r garfan yn nodi eu bod yn fyfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Unwaith eto, mae Prifysgol Bangor yn recriwtio nifer sylweddol o fyfyrwyr o China ac mae ganddi gampws yn Ninas Changsha yn nhalaith Hunan yn Tsieina. Cynigir cyrsiau mewn Cyfrifeg a Chyllid, Bancio a Chyllid a Pheirianneg Electronig i fyfyrwyr ac fel rheol maent yn cwblhau eu hail a'u trydedd flwyddyn o astudio ym Mangor.

## Holl fyfyrwyr sy'n preswylio yn y DU yn ôl canlyniad ac ethnigrwydd

O'r 1557 o fyfyrwyr sy'n preswylio yn y DU a raddiodd gyda gradd israddedig yn 2018/19, roedd 96.6% wedi datgan eu hethnigrwydd. Roedd 23.3% o gyfanswm y myfyrwyr wedi cofnodi eu hethnigrwydd yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

| **Dosbarthiad** | **Holl fyfyrwyr - Ethnigrwydd Pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig** | **Holl fyfyrwyr - Ethnigrwydd Gwyn** |
|---|---|---|
| Dosbarth Cyntaf | 24.8% | 30.8% |
| 2:1 | 45.1% | 45.2% |
| 2:2 | 25.7% | 21.2% |
| Trydydd Dosbarth | 2.7% | 1.6% |

Yn gyffredinol, graddiodd 76.0% o'r myfyrwyr gwyn yn 2018/2019 gyda gradd dosbarth cyntaf/2:1 o'i gymharu â 69.9% o'r myfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn cynrychioli bwlch cyrhaeddiad o 6.1 pwynt canran sy'n is na ffigur diweddaraf y DU, sef 13.2 pwynt canran.

## Holl Fyfyrwyr yn ôl Canlyniad ac Ethnigrwydd

O'r 2040 o fyfyrwyr a raddiodd gyda gradd israddedig yn 2018/19, gwnaeth 98.2% ddatgan eu hethnigrwydd. Cofnododd 7.3% o gyfanswm y myfyrwyr eu hethnigrwydd yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

| **Dosbarthiad** | **Holl fyfyrwyr - Ethnigrwydd Pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig** | **Holl fyfyrwyr - Ethnigrwydd Gwyn** |
|---|---|---|
| Dosbarth Cyntaf | 25.3% | 31.1% |
| 2:1 | 40.4% | 45.0% |

| | | |
|---|---|---|
| 2:2 | 26.7% | 21.0% |
| Trydydd Dosbarth | 5% | 1.6% |

Yn gyffredinol, graddiodd 76.0% o'r myfyrwyr gwyn yn 2018/2019 gyda gradd dosbarth cyntaf/2:1 o'i gymharu â 65.7% o'r myfyrwyr duon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn cynrychioli bwlch cyrhaeddiad o 10.3 pwynt canran sydd ychydig yn is na 10.6 yn 2017/18. Nid oes unRhywedd ffigurau ar gael i'r grŵp hwn o fyfyrwyr i gymharu yn eu herbyn.

# CRYNODEB

Bydd Data Myfyrwyr yn parhau i gael eu cofnodi'n flynyddol ac wrth i'r data sydd ar gael inni newid, felly hefyd y ffyrdd y gallwn ddefnyddio'r data hwn i lywio ein cynlluniau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth at y dyfodol ac ateb yr heriau.

Wrth i'r brifysgol edrych ar ddata cydraddoldeb myfyrwyr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd modd cymharu â'r blynyddoedd blaenorol ac efallai y bydd tueddiadau'n dod i'r amlwg. Yn y blynyddoedd i ddod, bydd yn ddefnyddiol hefyd edrych ar 'oedran' a 'man preswyl' yr holl fyfyrwyr er mwyn ystyried amrywiaeth y myfyrwyr a sicrhau archwiliad trylwyr o groestoriad materion cydraddoldeb. Er enghraifft, edrych ar ethnigrwydd myfyrwyr a'u Rhywedd i bennu pa ffactorau eraill a all greu heriau o ran cydraddoldeb.

# CYFEIRIADAU

Cydraddoldeb ac Addysg Uwch, Adroddiad Ystadegol Myfyrwyr 2019, Advance HE 2019)
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth www.nmc.org.uk <http://www.nmc.org.uk>
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru www.ewc.wales

# ATODIAD 1 - Data Myfyrwyr – Rhywedd

**Nifer a Chyfran y Myfyrwyr yn ôl Rhywedd, Dull Astudio a Lefel Astudio - 2018/19**

(Daw'r data o Gofnod Myfyrwyr HESA Prifysgol Bangor 2018/19)

| Rhywedd | Llawn Amser | | | | | Rhan Amser | | | | | Cyfanswn Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Israddedigion | | Ôl-raddedigion | Ymchwil Ôl-radd | Dim yn Graddio | Israddedigion | | Ôl-raddedigion | Ymchwil Ôl-radd | Dim yn Graddio | |
| Benyw | 4413 | | 673 | 250 | 35 | 109 | | 385 | 76 | 156 | 6097 |
| | 60.1% | | 56.8% | 56.3% | 45.5% | 58.0% | | 68.3% | 51.4% | 64.2% | 59.8% |
| Gwryw | 2933 | | 511 | 194 | 42 | 79 | | 176 | 72 | 87 | 4097 |
| | 29.9% | | 43.2% | 43.7% | 54.5% | 42.0% | | 31.7% | 48.6% | 35.8% | 40.2% |
| **Cyfanswm** | **7346** | | **1184** | | **77** | **188** | | **564** | **148** | **243** | **10194** |

**Nifer a Chyfran y Myfyrwyr yn ôl Ysgol, Rhywedd, Dull Astudio a Lefel Astudio - 2018/19**

(Daw'r data o Gofnod Myfyrwyr HESA 2018/19)

| Coleg | Ysgol | Rhywedd | Llawn Amser | | | | Rhan Amser | | | | Cyfanswn Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Israddedigion | Ôl-raddedigion | Ymchwil Ôl-radd | Dim yn Graddio | Israddedigion | Ôl-raddedigion | Ymchwil Ôl-radd | Dim yn Graddio | |
| Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes | Busnes | Benyw | 292 | 87.84 | 11 | 2 | 6 | 17 | 2 | 34 | 451.84 |
| | | | 46.3% | 33.2% | 57.9% | 100.0% | 33.3% | 54.0% | 66.7% | 43.6% | 43.2% |
| | | Gwryw | 338.49 | 177 | 8 | | 12 | 14.5 | 1 | 44 | 594.99 |
| | | | 53.7% | 66.8% | 42.1% | | 66.7% | 46.0% | 33.3% | 56.4% | 56.8% |
| | Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes | Benyw | | 2 | | | | | | | 2 |
| | | | | 66.7% | | | | | | | 66.7% |
| | | Gwryw | | 1 | | | | | | | 1 |
| | | | | 33.3% | | | | | | | 33.3% |
| | Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas | Benyw | 404.15 | 37.5 | 18 | 6 | 8 | 9 | 13 | | 495.64 |
| | | | 63.3% | 55.1% | 50.0% | 60.0% | 55.2% | 81.8% | 33.3% | | 60.7% |
| | | Gwryw | 234.33 | 30.5 | 18 | 4 | 6.5 | 2 | 26 | | 248.15 |
| | | | 36.7% | 44.9% | 50.0% | 40.0% | 44.8% | 18.2% | 66.7% | | 39.3% |
| | Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth | Benyw | 375.99 | 25 | 20 | 1 | 5 | 8 | 5.5 | 38 | 478.49 |
| | | | 68.2% | 52.1% | 71.4% | 33.3% | 52.6% | 88.9% | 55.0% | 55.9% | 65.8% |
| | | Gwryw | 175.15 | 23 | 8 | 2 | 4.5 | 1 | 4.5 | 30 | 248.15 |
| | | | 31.8% | 47.9% | 28.6% | 66.7% | 47.4% | 11.1% | 45.0% | 44.1% | 34.2% |
| | Gyfraith | Benyw | 166.21 | 32.5 | 7 | | 2 | 2 | | | 209.71 |
| | | | 60.9% | 52.4% | 63.6% | | 100.0% | 57.1% | | | 59.3% |
| | | Gwryw | 106.69 | 29.5 | 4 | 1 | | 1.5 | 1 | | 143.69 |
| | | | 39.1% | 47.6% | 36.4% | 100.0% | | 42.9% | 100.0% | | 40.7% |
| | Dysgu Gydol Oes | Benyw | | | | | 3 | 4 | | | 7 |
| | | | | | | | 100.0% | 100.0% | | | 100.0% |
| | | Gwryw | | | | | | | | | 0 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | |
| | Cerddoriaeth ac Cyfryngau | Benyw | 164.66 | 23 | 15 | 1 | 17 | 5 | 3.5 | | 229.16 |
| | | | 50.9% | 53.5% | 60.0% | 50.0% | 69.4% | 83.3% | 31.8% | | 52.7% |
| | | Gwryw | 159 | 20 | 10 | 1 | 7.5 | 1 | 7.5 | | 206 |
| | | | 19.1% | 46.5% | 40.0% | 50.0% | 30.6% | 16.7% | 68.2% | | 47.3% |
| | Cymraeg | Benyw | 31 | 3 | | | | 3 | 3 | | 40 |
| | | | 73.8% | 60.0% | | | | 75.0% | 100.0% | | 70.2% |
| | | Gwryw | 11 | 2 | 1 | | 2 | 1 | | | 17 |
| | | | 26.2% | 40.0% | 100.0% | | 100.0% | 25.0% | | | 29.8% |
| | | **Total** | **2458.66** | **493.84** | **120** | **18** | **73.5** | **69** | **67** | **146** | **3446** |
| Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg | Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | Benyw | 58.5 | 4 | 2 | 5 | 1 | | 1 | | 71.5 |
| | | | 14.3% | 29.6% | 7.4% | 17.2% | 4.0% | | 33.3% | | 14.1% |
| | | Gwryw | 352 | 9.5 | 25 | 24 | 24 | | 2 | | 436.5 |
| | | | 85.7% | 70.4% | 92.6% | 82.8% | 96.0% | | 66.7% | | 85.9% |
| | Gwyddorau Naturiol | Benyw | 564 | 28 | 59 | 9 | 6 | 22 | 10 | 11 | 709 |
| | | | 49.0% | 43.8% | 48.0% | 56.3% | 37.5% | 27.8% | 58.8% | 84.6% | 48.0% |
| | | Gwryw | 586 | 36 | 64 | 7 | 10 | 57 | 7 | 2 | 769 |
| | | | 51.0% | 56.3% | 52.0% | 43.8% | 62.5% | 72.2% | 41.2% | 15.4% | 52.0% |
| | Gwyddorau Eigion | Benyw | 245 | 33 | 11 | | 1 | | 5 | | 295 |
| | | | 51.6% | 48.5% | 52.4% | | 14.3% | | 50.0%% | | 50.8 |
| | | Gwryw | 230 | 35 | 10 | | 6 | | 5 | | 286 |
| | | | 48.4% | 51.5% | 47.6% | | 85.7% | | 50.0% | | 49.2% |
| | | **Total** | **2035.5** | **145.5** | **171** | **45** | **48** | **79** | **30** | **13** | **2567** |
| Coleg Gwyddorau Dynol | Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol | Benyw | 287.5 | 110 | 8 | 2 | 1.5 | 60 | 11 | 1 | 481 |
| | | | 72.7% | 68.8% | 100.0% | 100.0% | 100.0% | 63.8% | 57.9% | 100.0% | 70.6% |
| | | Gwryw | 108 | 50 | | | | 34 | 8 | | 200 |
| | | | 27.3% | 31.3% | | | | 36.2% | 42.1% | | 29.4% |
| | Gwyddorau Iechyd | Benyw | 1032 | 79 | 17 | 2 | 44 | 99 | 12 | 63 | 1348 |
| | | | 88.5% | 82.3% | 73.9% | 100.0% | 97.8% | 81.8% | 60.0% | 91.3% | 87.4% |
| | | Gwryw | 134 | 17 | 6 | | 1 | 22 | 8 | 6 | 194 |
| | | | 11.5% | 17.7% | 26.1% | | 2.2% | 18.2% | 40.0% | 8.7% | 12.6% |
| | Gwyddorau Meddygol | Benyw | 126 | 28 | 11 | | 6 | 8 | | | 179 |
| | | | 60.6% | 75.7% | 64.7% | | 100.0% | 47.1% | | | 62.6% |
| | | Gwryw | 82 | 9 | 6 | | | 9 | 1 | | 107 |
| | | | 29.4% | 24.3% | 35.5% | | | 53.9% | 100.0% | | 37.4% |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Seicoleg | Benyw | 567.5 | 156.16 | 59 | 6 | 7.5 | 148 | 8 | 9 | 961.16 |
| | | | 73.5% | 76.7% | 77.6% | 100.0% | 68.2% | 81.3% | 88.9% | 62.2% | 75.5%v |
| | | Gwryw | 204.34 | 47.5 | 17 | | 3.5 | 34 | 1 | 4 | 311.34 |
| | | | 26.5% | 23.3% | 22.4% | | 31.8% | 18.7% | 11.1% | 30.8% | 24.5% |
| | Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer | Benyw | 98.5 | 24 | 12 | 1 | 1 | | 2 | | 138.5 |
| | | | 31.7% | 50.0% | 41.4% | 25.0% | 33.3% | | 100.0% | | 34.7% |
| | | Gwryw | 212 | 24 | 17 | 3 | 2 | 2 | | 1 | 261 |
| | | | 68.3% | 50.0% | 58.6% | 75.0% | 66.7% | 100.0% | | 100.0% | 63.3% |
| | | **Cyfanswn** | **2851.84** | **544.66** | **153** | **14** | **66.5** | **416** | **51** | **84** | **4181** |
| **Cyfanswm Llawn** | | | **7346** | **1184** | **444** | **77** | **188** | **564** | **148** | **243** | **10194** |

**Nifer a Chyfran y Dosbarthiadau Gradd a Ddyfarnwyd yn ôl Rhyw - 2018/19**
(Daw'r data o Gofnod Myfyrwyr HESA Prifysgol Bangor 2018/19)

| Rhywedd | Dosbarth Gradd - Cyfrir | | | | | Cyfanswn Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyntaf | 2:1 | 2:2 | Trydydd | Diddosbarth | |
| Benyw | 358 | 504 | 221 | 24 | 13 | 1120 |
| | 58.8 | 56.4 | 48.5 | 45.3 | 44.8 | 54.9 |
| Gwryw | 251 | 389 | 235 | 29 | 16 | 920 |
| | 41.2 | 43.6 | 51.5 | 54.7 | 55.2 | 45.1 |
| **Cyfanswm** | **609** | **893** | **456** | | | |

**Nifer y Gadawyr yn ôl Rhesymau dros Adael a Rhywedd – 2018/19**
(Cafwyd y data o Gofnod Myfyrwyr HESA Prifysgol Bangor 2018/19)

| Rhywedd | Cwblhau'r Cwrs yn Llwyddiannus | Trosglwyddo i Sefydliad Arall | Methiant Academaidd/ Gwahardd | Ariannol | Iechyd | Arall | Dim yn hysbys | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Benyw | 1315 | 1 | 15 | 3 | 8 | 111 | | 1453 |
| | 54.9 | 50.0 | 31.3 | 75.0 | 66.7 | 66.1 | | 55.2 |
| Gwryw | 1080 | 1 | 33 | 1 | 4 | 57 | 1 | 1177 |
| | 45.1 | 50.0 | 68.8 | 25.0 | 33.3 | 33.9 | 100.0 | 44.8 |
| **Cyfanswm** | **2395** | **2** | **48** | **4** | **12** | **168** | **1** | **2630** |

# ATODIAD 2 - Data Myfyrwyr - Anabledd

**Nifer a Chyfran y Myfyrwyr yn ôl Anabledd, Dull Astudio a Lefel Astudio - 2018/19**

(Daw'r data o Gofnod Myfyrwyr HESA 2018/19)

| Statws Anabledd | Llawn Amser | | | | Rhan Amser | | | | Cyfanswm Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Israddedig | Ôl-radd | Ymchwil Ôl-radd | Ddim yn Graddio | Israddedig | Ôl-radd | Ymchwil Ôl-radd | Ddim yn Graddio | |
| Anabledd wedi ei ddatgan | 1574 | 184 | 88 | 10 | 67 | 64 | 27 | 16 | 2030 |
| | 21.4 | 15.5 | 19.8 | 13.0 | 35.6 | 18.2 | 11.3 | 6.6 | 19.9 |
| Anabledd heb ei ddatgan | 5772 | 1000 | 356 | 67 | 121 | 500 | 121 | 227 | 8164 |
| | 78.6 | 84.5 | 80.2 | 87.0 | 64.4 | 81.8 | 88.7 | 93.4 | 80.1 |
| **Cyfanswm** | **7346** | **1184** | **444** | **77** | **188** | **564** | **148** | **243** | **10194** |

**Nifer a Chyfran y Myfyrwyr yn ôl Ysgol, Statws Anabledd, Dull Astudio a Lefel Astudio – 2018/19**

(Cafwyd y data o Gofnod Myfyrwyr HESA Prifysgol Bangor 2018/19)

| Coleg | Ysgol | Statws Anabledd | Llawn Amser | | | | Rhan Amser | | | | Cyfanswm Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Israddedig | Ôl-radd | Ymchwil Ôl-radd | Ddim yn Graddio | Israddedig | Ôl-radd | Ymchwil Ôl-radd | Ddim yn Graddio | |
| Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes | Busness | Wedi Datgan Anabledd | 55 | 20 | 2 | | 3 | 5 | 1 | 4 | 90 |
| | | | 8.7% | 7.6% | 10.5% | | 16.7% | 15.9% | 33.3% | 5.1% | |
| | | Heb Ddatgan Anabledd | 575.49 | 244.84 | 17 | 2 | 15 | 26.5 | 2 | 74 | 956.83 |
| | | | 91.3% | 92.4% | 89.5% | 100.0% | 83.3% | 84.1% | 66.7% | 94.9% | |
| | Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes | Wedi Datgan Anabledd | | 1 | | | | | | | 1 |
| | | | | 33.3% | | | | | | | |
| | | Heb Ddatgan Anabledd | | 2 | | | | | | | 2 |
| | | | | 66.7% | | | | | | | |
| | Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas | Wedi Datgan Anabledd | 171.82 | 20 | 12 | 3 | 5.5 | 2 | 7 | | 221.32 |
| | | | 26.9% | 29.4% | 33.3% | 30.0% | 37.9% | 18.2% | 17.9% | | |
| | | Heb Ddatgan Anabledd | 466.65 | 48 | 24 | 7 | 9 | 9 | 32 | | 595.65 |
| | | | 73.1% | 70.6% | 66.7% | 70.0% | 62.1% | 81.8% | 82.1% | | |
| | Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth | Wedi Datgan Anabledd | 146.83 | 9 | 4 | | 6 | 2 | 2 | 5 | 174.83 |
| | | | 26.6% | 18.8% | 14.3% | | 63.2% | 22.2% | 20.0% | 7.4% | |
| | | Heb Ddatgan Anabledd | 404.31 | 39 | 24 | 3 | 3.5 | 7 | 8 | 63 | 551.81 |
| | | | 73.4% | 81.3% | 85.7% | 100.0% | 36.8% | 77.8% | 80.0% | 92.6% | |
| | Gyfraith | Wedi Datgan Anabledd | 42.52 | 13.5 | 2 | 1 | | 1 | | | 60.02 |
| | | | 15.6% | 21.8% | 18.2% | 100.0% | | 28.6% | | | |
| | | Heb Ddatgan Anabledd | 230.38 | 48.5 | 9 | | 2 | 2.5 | 1 | | 293.38 |
| | | | 84.4% | 78.2% | 81.8% | | 100.0% | 71.4% | 100.0% | | |
| | Dysgu Gydol Oes | Wedi Datgan Anabledd | | | | | 1 | 3 | | | 4 |
| | | | | | | | 33.3% | 75.0% | | | |
| | | Heb Ddatgan Anabledd | | | | | 2 | 1 | | | 3 |
| | | | | | | | 66.7% | 25.0% | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cerddoriaeth ac Cyfryngau | Wedi Datgan | 80.33 | 9 | 3 | 1 | 11 | 2 | 3 | | 109.33 |
| | | Anabledd | 24.8% | 20.9% | 12.0% | 50.0% | 44.9% | 33.3% | 27.3% | | |
| | | Heb Ddatgan | 243.33 | 34 | 22 | 1 | 13.5 | 4 | 8 | | 325.83 |
| | | Anabledd | 75.2% | 79.1% | 88.0% | 50.0% | 55.1% | 66.7% | 72.7% | | |
| | Cymraeg | Wedi Datgan | 3.5 | | | | 1 | | | | 4.5 |
| | | Anabledd | 8.3% | | | | 50.0% | | | | |
| | | Heb Ddatgan | 38.5 | 5 | 1 | | 1 | 4 | 3 | 38.5 | 52.5 |
| | | Anabledd | 91.7% | 100.0% | 100.0% | | 50.0% | 100.0% | 100.0% | | |
| | | **Total** | **2458.66** | **493.84** | **120** | **18** | **73.5** | **69** | **146** | **146** | **3446** |
| Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg | Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | Wedi Datgan | 79 | 2 | 3 | 1 | 13 | | 2 | | 100 |
| | | Anabledd | 19.2% | 14.8% | 11.1% | 3.4% | 52.0% | | 66.7% | | 19.7% |
| | | Heb Ddatgan | 331.5 | 11.5 | 24 | 28 | 12 | | 1 | | 408 |
| | | Anabledd | 80.8% | 85.2% | 88.9% | 96.6% | 48.0% | | 33.3% | | 80.3% |
| | Gwyddorau Naturiol | Wedi Datgan | 302 | 7 | 26 | 1 | 7 | 4 | 6 | 1 | 354 |
| | | Anabledd | 26.3% | 10.9% | 21.1% | 6.3% | 43.8% | 5.1% | 35.3% | 7.7% | 24.0% |
| | | Heb Ddatgan | 848 | 57 | 97 | 15 | 9 | 75 | 11 | 12 | 1124 |
| | | Anabledd | 73.7% | 89.1% | 78.9% | 93.8% | 56.3% | 94.9% | 64.7% | 92.3% | 76.0% |
| | Gwyddorau Eigion | Wedi Datgan | 123 | 16 | 3 | | 4 | | 2 | | 148 |
| | | Anabledd | 25.9% | 23.5% | 14.3% | | 57.1% | | 20.0% | | 25.5% |
| | | Heb Ddatgan | 352 | 52 | 18 | | 3 | | 8 | | 433 |
| | | Anabledd | 74.1% | 76.5% | 85.7% | | 42.9% | | 80.0% | | 74.5% |
| | | **Total** | **2035.5** | **145.5** | **171** | **45** | **48** | **79** | **30** | **13** | **2567** |
| Coleg Gwyddorau Dynol | Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol | Wedi Datgan | 71.5 | 24 | 1 | 1 | | 12 | 2 | | 111.5 |
| | | Anabledd | 18.1% | 15.0% | 12.5% | 50.0% | | 12.8% | 10.5% | | 16.4% |
| | | Heb Ddatgan | 324 | 136 | 7 | 1 | 1.5 | 82 | 17 | 1 | 569.5 |
